GRŴP ADOLYGU YMARFER ACHOS OEDOLION / PLANT SUSR

CYLCH GORCHWYL

Cyd-destun Polisi

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn gyfrifol am gynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant ers cyflwyno Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Canllawiau ar Swyddogaethau Byrddau Diogelu, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol gyfrifoldebau ychwanegol bellach dros annog pob Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) a fydd yn disodli Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adolygiadau Ymarfer Plant
- Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Adolygiadau Lladdiad Domestig
- Adolygiadau Lladdiad ag Arfau Ymosodol
- Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl

Cyfeiriwch at y ddolen ganlynol i weld canllawiau statudol SUSR:
https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau-statudol

Bydd Byrddau Diogelu Rhanbarthol wrth wraidd y broses gyda chyfrifoldebau ychwanegol gan gynnwys:

- rheolaeth gyffredinol y broses yn eu rhanbarth;
- gwaith partneriaeth effeithiol gyda'r asiantaethau priodol, Canolbwynt Cydlynu Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a Storfa Ddiogelu Cymru;
- gweithio gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol sydd â chyfrifoldeb dros Adolygiadau Lladdiad Domestig ac a fydd yn bartneriaid â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol pan fo'r achos yn ymwneud â lladdiad; a
- gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer yr ardal lle mae lladdiad wedi digwydd, er enghraifft, pan fo'r canfyddiadau o'r Adolygiad yn ymwneud â'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn cael ei rheoli gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol priodol. Bydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn:

- sefydlu Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant SUSR yng nghyd-destun y gofynion deddfwriaethol, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol pan fo Lladdiad Domestig wedi digwydd;
- cefnogi'r Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant wrth benodi Cadeirydd ac Adolygydd/Adolygwyr priodol; a
- goruchwylio'r ymgysylltiad gydag unigolion sy'n rhan o'r broses adolygu. Er enghraifft, cyfranogiad partneriaid adolygu perthnasol, h.y., cynrychiolwyr yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd ar y Panel Adolygu.

Caiff pob Adolygiad Diogelu Unedig Sengl posibl ei ystyried gan y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant. Bydd y Grŵp Adolygu Achosion perthnasol yn gwneud yr argymhelliad cychwynnol o ran a ddylid cynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ai peidio.

Mae'n rhaid i'r Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant gynnwys staff â'r lefel briodol o arbenigedd a statws swydd i sicrhau bod y penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud. Bydd y grŵp hwn yn penderfynu pwy yw'r partneriaid adolygu perthnasol mewn perthynas â'r digwyddiad a rhoi gwybod iddynt am eu dyletswydd i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau a phenderfyniadau.

Pwrpas

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn cefnogi'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol trwy gyflawni'r swyddogaeth statudol i ystyried pob atgyfeiriad ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.

Bydd y grŵp yn sicrhau bod pob adolygiad â digon o adnoddau a bod cynlluniau gweithredu strategol a gweithredol yn cael eu cydlynu a'u rheoli'n effeithiol. O ran gwybodaeth cofrestrydd a PRUDiC, bydd y Grŵp Adolygu Achosion Plant yn cael diweddariadau o ran pob achos disgwyliedig ac annisgwyl o farwolaethau ymhlith plant, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 a Gweithdrefnau PRUDiC 2023.

Amcanion

Bydd Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn gwneud argymhellion i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru o ran cynnal / peidio â chynnal Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl, fel bo'n briodol.

O ran Lladdiad Domestig, bydd Arweinydd PDC yr ALl yn rhannu'r argymhelliad â Chadeirydd y PDC. Gyda chefnogaeth gan Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu a Rheolwr PDC yr ALl, bydd Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn cysylltu â Chadeirydd y PDC am yr argymhelliad.

Os bydd y ddau Gadeirydd yn cytuno, bydd y Swyddfa Gartref a Chanolbwynt Cydlynu SUSR yn Llywodraeth Cymru yn cael gwybod.

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion yn nodi Cadeiryddion ac adolygwyr addas i'w hystyried.

Mewn achos Lladdiad Domestig, dylid cynnal trafodaethau rhwng Cadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Chadeirydd perthnasol yr arweinydd PDC o ran ariannu Cadeirydd ac adolygwyr.

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn goruchwylio'r broses adolygu, gan roi gwybod i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru am unrhyw rwystrau i gwblhau'r adolygiad a therfynau amser diwygiedig.

Yn yr achos cyntaf, bydd Cadeirydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn trafod rhwystrau gyda Chadeirydd y panel. Pan fo angen adrodd wrth PDC yr ALl perthnasol, bydd Arweinydd PDC yr ALl yn gwneud hyn.

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn sicrhau ansawdd adroddiadau SUSR cyn eu cyflwyno i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Bydd y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cymeradwyo Adroddiadau SUSR Lladdiad Domestig cyn iddynt gael eu cyflwyno i Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn monitro cynnydd o ran cwblhau unrhyw gamau sy'n weddill.

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn cymeradwyo cynlluniau gweithredu wedi'u cwblhau gan SUSRs.

Y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd

Mae'n rhaid i'r Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant benodi un o'i aelodau i fod yn Gadeirydd, trwy benderfyniad mwyafrifol. Gall y penodiad fod am gyfnod o hyd at dair blynedd, ac ar ddiwedd y cyfnod, gellir ei adnewyddu am gyfnod pellach o hyd at dair blynedd, yn amodol ar benderfyniad mwyafrifol.

Mae'n rhaid i'r Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant benodi un o'i aelodau i fod yn Is-Gadeirydd hefyd, trwy benderfyniad mwyafrifol. Dylai penodiad Is-Gadeirydd fod am hyd at dair blynedd hefyd, gyda'r dewis i'w adnewyddu am gyfnod o hyd at dair blynedd.

Aelodaeth

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn cynnwys aelodau â chyfrifoldeb statudol dros Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Lladdiad Domestig, Adolygiadau Lladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Lladdiad ag Arf Ymosodol. Dylai aelodau Grŵp Adolygu Achosion fod â chyfrifoldeb sefydliadol ac awdurdod digonol i ymrwymo adnoddau a dal sefydliadau i gyfrif.

Yr aelodau â 'chyfrifoldebau pleidleisio (CP)' yw'r rhai sy'n aelodau statudol ac mae hyn wedi'i ddangos isod:

Cynrychiolwyr Gwasanaethau Plant (CP), Gwasanaethau Oedolion (CP) a Gwasanaethau Addysg (CP) ac Arweinwyr Partneriaethau Diogelwch Cymunedol o ardaloedd Awdurdod Lleol y Bwrdd:

- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) (CP)
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (CP)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (CP)
- Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
- Heddlu Gogledd Cymru (CP)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Darparwr Tai Awdurdod Lleol
- VAWDASV a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

- Cynrychiolydd o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau cysylltiadau uniongyrchol.

Proses

Bydd y Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn cwrdd bob chwarter a bydd yr Uned Fusnes Diogelu Rhanbarthol yn darparu cefnogaeth.

Bydd aelodau'r Grŵp Adolygu Achosion yn enwebu staff o'u sefydliadau i fod ar banelau adolygu pan fo'r gofyn.

Llywodraethu

Bydd Cadeirydd Grŵp Adolygu Achosion Oedolion / Plant yn darparu adroddiad ysgrifenedig yn uniongyrchol i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru bob chwarter.

Gellir defnyddio'r adroddiadau ysgrifenedig chwarterol hyn i lywio'r adroddiad blynyddol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd yr Uned Fusnes, ar ran Cadeirydd y Grwpiau Adolygu Achosion, yn sicrhau bod Canolbwynt Cydlynu SUSR yn cael cyngor priodol am benderfyniadau a chanlyniadau sy'n ymwneud â SUSR yng ngogledd Cymru.

Bydd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Chadeirydd PDC yn cydweithio pe bai angen cynnal Adolygiad Lladdiad Domestig.

Bydd Arweinydd y PDC, ar ran y Bartneriaeth, yn sicrhau bod swyddogion y Swyddfa Gartref yn cael cyngor priodol am benderfyniadau a chanlyniadau sy'n ymwneud â SUSR Lladdiad Domestig yng ngogledd Cymru. Bydd y PDC yn dal i lywodraethu Adolygiadau Lladdiad Domestig yn gyffredinol. Bydd Arweinydd PDC yr ALl yn sicrhau bod Adolygiadau Lladdiad Domestig yn cael eu llywodraethu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Swyddfa Gartref a gofynion Deddf Cam-drin Domestig 2021.

Caiff presenoldeb ei fonitro a chaiff y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wybod am unrhyw faterion.